

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Pwyllgor Cynllunio Remote Meeting Dydd Mawrth, 3ydd Awst, 2021, 2.00 pm

CYNGHORWYR YN
BRESENNOL: Cynghorydd Sirol R. Edwards (Cadeirydd)
Cynghorydd Sirol P. Clarke (Is-Gadeirydd)

Cynghorydd Sirol: J.Becker, L.Brown, A.Davies, A. Easson,
D. Evans, R. Harris, G. Howard, P. Jordan, A. Webb, S. Woodhouse

OFFICERS IN ATTENDANCE:

Craig O'Connor	Head of Planning
Philip Thomas	Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Andrew Jones	Development Management Area Team Manager
Denzil – John Turbervill	Commercial Solicitor
Richard Williams	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

YMDDIHEURIADAU:

Cynghorydd Sirol: M.Feakins, J. Higginson, P. Murphy, M. Powell

1. Datganiadau o Fuddiant

Ni dderbyniwyd yr un.

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio dyddiedig 6^{ed} Gorffennaf 2021 gan y Cadeirydd.

3. Cais DM/2020/01801 - Defnyddio garej ddomestig fel annedd am gyfnod dros dro tra bod gwaith adeiladu yn cael ei wneud ar drawsnewid ysgubor sydd â chaniatâd. Melin Campston, Heol Barry-Cathlea, Llanfihangel Crucornau, Sir Fynwy, NP7 8EF.

Gwnaethom ystyried adroddiad y cais a argymhellwyd i'w gymeradwyo yn ddarostyngedig i'r ddau amod a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Wrth nodi manylion yr adroddiad, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Dylid ystyried diwygio amod 2, fel a ganlyn:
 - Bydd y defnydd o'r adeilad fel annedd yn dod i ben ar neu cyn 14eg Tachwedd 2022 neu cyn gynted ag y bydd y bwthyn a gymeradwywyd o dan gais DM/2018/01956 yn cael ei ddefnyddio'n fuddiol, pa un bynnag yw'r cynharaf a'i ddychwelyd i'r defnydd o fodurdy.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Pwyllgor Cynllunio Remote Meeting Dydd Mawrth, 3ydd Awst, 2021, 2.00 pm

- O ran y dyddiad 14^{eg} Tachwedd 2022 lle bydd y defnydd o'r adeilad fel annedd yn dod i ben ar neu cyn y dyddiad hwn, nodwyd bod y diwydiant adeiladu yn cael amseroedd anodd gan ei gwneud yn anodd i gontractwyr gwblhau gwaith ar amser. Felly, dylid ystyried rhywfaint o hyblygrwydd mewn perthynas â'r dyddiad hwn.
- Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd, dywedodd y Rheolwr Ardal Rheoli Datblygu wrth y Pwyllgor fod gan yr adeilad lawr uchaf. Byddai defnyddio'r adeilad yn cwmpasu'r llawr uchaf a'r llawr isaf gyda'r defnydd o'r adeilad yn llety byw hunangynhwysol. Dim ond pan fydd yn dychwelyd i fod yn fodurdy y gellid defnyddio'r adeilad yn ategol. Felly, gellid diwygio Amod 2 fel a ganlyn:
 - Bydd y defnydd o'r adeilad fel annedd hunangynhwysol yn dod i ben ar neu cyn 14eg Tachwedd 2022 neu cyn gynted ag y bydd y bwthyn a gymeradwywyd o dan gais DM/2018/01956 yn cael ei ddefnyddio'n fuddiol, pa un bynnag yw'r cynharaf a'i ddychwelyd i ddefnydd preswyl ategol.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir D. Evans ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir P. Clarke y dylid cymeradwyo cais DM/2020/01801 yn ddarostyngedig i'r ddau amod a amlinellir yn yr adroddiad ac y dylid newid Amod 2 fel a ganlyn:

Bydd y defnydd o'r adeilad fel annedd hunangynhwysol yn dod i ben ar neu cyn 14eg Tachwedd 2022 neu cyn gynted ag y bydd y bwthyn a gymeradwywyd o dan gais DM/2018/01956 yn cael ei ddefnyddio'n fuddiol, pa un bynnag yw'r cynharaf a'i ddychwelyd i ddefnydd preswyl ategol.

Ar ôl pleidleisio, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

O blaid y cais	-	11
Yn erbyn y cais	-	0
Ymataliadau	-	0

Cariwyd y cynnig.

Gwnaethom benderfynu bod cais DM/2020/01801 yn cael ei gymeradwyo yn ddarostyngedig i'r ddau amod a amlinellir yn yr adroddiad ac y dylid newid Amod 2 fel a ganlyn:

Bydd y defnydd o'r adeilad fel annedd hunangynhwysol yn dod i ben ar neu cyn 14eg Tachwedd 2022 neu cyn gynted ag y bydd y bwthyn a gymeradwywyd o dan gais DM/2018/01956 yn cael ei ddefnyddio'n fuddiol, pa un bynnag yw'r cynharaf a'i ddychwelyd i ddefnydd preswyl ategol.

4. Cais DM/2021/00771 - Caniatâd Cynllunio Llawn - Darparu deciau pren o dan yr ardal eistedd y tu allan bresennol. Bydd y deciau'n cynnwys pedwar stepen a rheiliau llaw. Bwyty Wye Knot, 18A The Back, Cas-gwent.

Cafodd Cais DM/2020/00771 ei dynnu'n ôl o'r agenda er mwyn gallu cynnal trafodaethau pellach yn cynnwys swyddogion Cyngor Sir Fynwy a'r ymgeisydd.

Yn dilyn y trafodaethau hyn, bydd y cais yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio yn y dyfodol i'w ystyried.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Pwyllgor Cynllunio

Remote Meeting

Dydd Mawrth, 3ydd Awst, 2021, 2.00 pm

5. ER GWYBODAETH - Yr Arolygiaeth Gynllunio - Penderfyniadau o ran Apeliadau a Dderbyniwyd:

5.1. Carchar Ei Mawrhydi, Brynbuga, Stryd Maryport, Brynbuga.

Cawsom adroddiad yr Arolygiaeth Gynllunio a oedd yn ymwneud â phenderfyniad apêl yn dilyn ymweliad safle a gynhaliwyd yng Ngharchar Ei Mawrhydi Brynbuga, Stryd Maryport, Brynbuga, ar 14^{eg} Mai 2021.

Gwnaethom nodi bod yr apêl wedi'i gwrthod.